Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Diweddariad i Lywodraethwyr ysgolion a gynhelir ac Aelodau Pwyllgorau Rheoli unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru

Trefniadau arolygu o Fedi 2024 ymlaen

Gyda chylch arolygu newydd yn dechrau ym Medi 2024, bwriad y nodyn hwn yw rhoi diweddariad i lywodraethwyr ac aelodau pwyllgorau rheoli ar ein trefniadau arolygu newydd. Bydd y diweddariad hwn yn canolbwyntio ar ysgolion a gynhelir ac UCDau.

Dull

Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd golegol at ddatblygu ein trefniadau arolygu arfaethedig. Rydym wedi gweithio gyda'n grwpiau rhanddeiliaid i ddatblygu ein trefniadau arolygu.

Egwyddor allweddol sy'n gyrru ein datblygiad yw sicrhau ein bod yn glir am ein disgwyliadau o ran arolygiadau a lleihau unrhyw faich gwaith diangen. Yn gynt y tymor hwn, fe wnaethom lansio ein hymgyrch Barod yn Barod! (Ready Already) i egluro ein negeseuon ac i annog pobl i beidio gor-baratoi ar gyfer arolygu.

Hefyd, rydym wedi diweddaru ein dogfen 'sut rydym yn arolygu', yn cadarnhau ein disgwyliadau ar gyfer ein harolygwyr, ac ar eich cyfer chi fel llywodraethwyr neu aelodau o bwyllgorau rheoli, i sicrhau bod y broses yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol tuag at eich gilydd: Sut rydym yn arolygu – 2024 ysgolion a gynhelir ac UCDau (llyw.cymru)

Ers haf 2023, rydym wedi ymgynghori ar drefniadau arolygu ar draws ein sectorau. Mae'r dadansoddiad llawn i'w weld yma. Ar y cyfan, cafodd y newidiadau arfaethedig eu croesawu.

Ers tymor yr hydref 2023, rydym wedi bod yn rhoi ein trefniadau ar brawf. Ar sail ein hymgynghoriad a'n harolygiadau peilot, mae ciplun o'n cynlluniau i'w weld isod.

Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Fel y soniodd yr Athro Donaldson yn ei adroddiad *Arolygiaeth dysgu: gwrando, dysgu a newid gyda'n gilydd | Estyn (llyw.cymru)*, rydym wedi archwilio ffyrdd y mae ein gwaith arolygu yn cefnogi ac yn ategu hunanwerthuso a gwelliant o fewn y system. Hefyd, rydym ni wedi archwilio ffyrdd o ymgysylltu'n amlach ag ysgolion ac UCDau, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth ac yn cefnogi gwelliant.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gynnal arolygiad craidd ac ymweliad interim â phob ysgol ac UCD o fewn y cylch 6 blynedd nesaf, 2024 – 2030.

Byddwn yn parhau i esblygu ein trefniadau arolygu ac adeiladu ar newidiadau diweddar, fel y ffocws cynyddol ar ddeialog proffesiynol a chryfhau ein model enwebeion.

Nid ydym yn newid ein penderfyniad ar ddefnyddio graddau crynodol – byddwn yn parhau i arolygu heb lunio graddau crynodol, ond bydd un farn gyffredinol o hyd o ran p'un a oes angen gweithgarwch dilynol ar yr ysgol neu'r UCD. Rydym yn rhoi'r gorau i ddefnyddio Adolygu gan Estyn a byddwn yn cyflawni ein gwaith yn awr gyda'r ddau gategori gweithgarwch dilynol statudol yn unig – gwelliant sylweddol a mesurau arbennig. Mae mwy o wybodaeth am weithgarwch dilynol i'w gweld yn 'Sut rydym yn arolygu'.

Y newid mwyaf i'n gwaith fydd cyflwyno ein hymweliadau interim, a fydd yn rhoi cyfle i arolygwyr ac arweinwyr ysgolion gydweithio i werthuso cynnydd a chefnogi gwelliant. O Fedi 2024 ymlaen, byddwn yn cynnal ymweliadau interim a fydd yn para rhwng diwrnod a deuddydd, gyda rhwng un a phedwar o arolygwyr yn ymweld, yn dibynnu ar faint yr ysgol neu'r UCD. Fel arfer, bydd yr ymweliadau hyn yn myfyrio ar yr argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad craidd blaenorol neu gynllun gwella neu ddatblygu presennol yr ysgol neu'r UCD.

Nid oes angen i ysgolion ac UCDau baratoi ar gyfer ymweliad interim a byddant fel arfer yn cael hysbysiad tua phum niwrnod cyn yr ymweliad.

Gallem ofyn am nifer fach o ddogfennau, gan gynnwys cynllun gwella diweddaraf yr ysgol neu'r UCD a gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau arwain. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cysylltu â'r ysgol neu'r UCD cyn yr ymweliad interim i gytuno ar ei ffocws ac i esbonio beth allwch chi ei ddisgwyl. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau, hefyd.

Yn dilyn ymweliad interim, byddwn yn rhoi adborth i'r pennaeth ac yn cyhoeddi llythyr byr ar ein gwefan.

Rydym yn falch o allu rhannu'r diweddariad i'n harweiniad gydag aelodau. Mae copïau o beth rydym yn ei arolygu a sut rydym yn arolygu ar gael yma.

Bydd yr arweiniad yn caniatáu hyblygrwydd i'n harolygwyr ddefnyddio'r fframwaith drafft fel y gallant adrodd ar brif gryfderau'r darparwr unigol a'i feysydd i'w ddatblygu, gan ystyried cyd-destun unigryw'r darparwr.

Y camau nesaf

I baratoi ar gyfer y trefniadau arolygu newydd, rydym wedi bod yn bwrw golwg hefyd ar ffyrdd o wella'r profiad arolygu a ffyrdd eraill o annog gwelliant yn y system.

Rydym wedi arolygu ein holiaduron cyn-arolygiad fel bod mwy o ffocws ganddynt ac fel eu bod yn defnyddio iaith gliriach.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi fersiwn i rieni / gofalwyr o'n hadroddiadau arolygu ac rydym yn archwilio ffyrdd o gyflwyno a lledaenu'r adroddiadau mewn ffyrdd gwahanol.

Byddwn yn lansio ein gwefan newydd i gyd-fynd â dechrau'r cylch arolygu. Ffocws allweddol i'r wefan newydd fydd gwella profiad y defnyddiwr i'n rhanddeiliaid, er enghraifft:

- offeryn llywio a chwilio gwell i helpu rhannu arfer dda ac arfer orau

- cyflwyno adnoddau defnyddiol i yrru gwelliant mewn ffordd fwy greddfol
- swyddogaeth chwilio sy'n arwain at ganlyniadau mwy perthnasol i ymarferwyr
- ffyrdd haws o ddod o hyd i adroddiadau arolygu, yn enwedig i rieni a gofalwyr

Byddwn yn cynnal sesiynau hyfforddi i'n harolygwyr allanol cyn i ni gyflwyno ein trefniadau yn barod ar gyfer Medi 2024.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau'n gysylltiedig â'n cynlluniau ar gyfer arolygu o Fedi 2024 ymlaen, cysylltwch â rhidian.dafydd@estyn.llyw.cymru